**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julie James AS
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni

11 Tachwedd 2025

Annwyl Julie,

Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref 2025 yn amlinellu ymagwedd Llywodraeth Cymru at ddeddfwriaeth yn dilyn canlyniad yr adolygiad o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020. Trafododd y Pwyllgor eich gohebiaeth yn ei gyfarfod ar 20 Hydref.

Fel Pwyllgor, rydym yn croesawu'r manylion ychwanegol a ddarparwyd gennych ynghylch canlyniad yr adolygiad, y camau nesaf wrth ymateb iddo, a safbwynt Llywodraeth Cymru ar effaith Deddf 2020 ar effeithiolrwydd deddfwriaeth.

Er ein bod hefyd yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i flaenoriaethu Fframweithiau Cyffredin fel y prif fforwm ar gyfer rheoli marchnad fewnol y DU, rydym yn parhau i bryderu y gallai Deddf 2020 barhau i ddylanwadu ar sefyllfaoedd lle na ellir dod i gytundeb drwy Fframweithiau Cyffredin.

Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth, pan fydd ar gael, ynghylch sut mae ymrwymiadau Llywodraeth y DU yn cael eu troi'n "gamau gweithredu gwrthrychol a chymesur" y cyfeirir atynt yn eich llythyr.

Fel y byddwch yn ymwybodol o ymateb y Pwyllgor i'r adolygiad, roeddem yn siomedig bod Llywodraeth y DU wedi diystyru unrhyw newidiadau deddfwriaethol i Ddeddf 2020 ac wedi eithrio'r pwerau cymorth ariannol yn Rhan 6 o gwmpas yr adolygiad.

Rydym yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i "[b]arhau i fynd ar drywydd cyhoeddi defnydd o Bwerau Cymorth Ariannol". Felly, byddem yn croesawu rhagor o fanylion am y camau y mae Llywodraeth

Cymru yn bwriadu eu cymryd o ran hyn ac am ei dull o fynd ar drywydd diwygiadau ehangach i Ddeddf 2020.

Byddem hefyd yn gwerthfawrogi eglurhad pellach o safbwynt Llywodraeth Cymru ar effaith Deddf 2020 ar ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth Cymru. Er ein bod yn nodi eich datganiad nad yw dadl gyfreithiol Llywodraeth Cymru wedi'i phrofi yn derfynol yn y llys, byddem yn croesawu'r cyfle i ddeall sail y safbwynt hwn yn well a sut y cafodd ei datblygu. Yn benodol, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch pam mae Llywodraeth Cymru yn credu bod Deddf 2020 yn berthnasol i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau Senedd y DU, ond nid i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau'r Senedd nac i Ddeddfau'r Senedd eu hunain.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb gennych erbyn 14 Ionawr 2026.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament